



YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL  
THE NATIONAL TRUST

# Llawlyfr Tenantiaid Preswyl

TANT

TENANTS ASSOCIATION OF THE NATIONAL TRUST



---

# Croeso

---

Ers ei sefydlu yn 1895, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gofalu am rai o'r lleoedd a drysorir fwyaf yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys mwy na chwarter miliwn hectar o'n tirwedd gwychaf ac o leiaf 25,000 o adeiladau sy'n amrywio o blastai mawr i ysguboriau caeau. Mae gennym gyfrifoldeb dan ein Deddfau i ddiogelu'r manau arbennig hyn 'am byth, i bawb'.

Ymysg y portffolio amrywiol a hynod anodd yma mae bron i 5,000 o dai a bythynnod sy'n cael eu gosod gan fwyaf i denantiaid preifat neu staff. Mae llawer o'r rhain o bwys pensaernïol neu'n enghreifftiau gwych o'r dull cynhenid lleol, ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at gymeriad cefn gwlad, pentrefi neu drefgorddau. Maent hefyd, wrth gwrs, yn gartrefi i bobl, a byddwn yn rhannu ein cyfrifoldeb o ofalu amdany'n nhw efo chi, eu tenantiaid.

Mae'r berthynas ffurfiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'n tenantiaid wedi ei gosod allan yn ein cytundebau tenantiaeth ond yn ymarferol mae angen i ni weithio gyda'n gilydd fel partneriaid, fel cyd-stiwardiaid yr adeiladau pwysig yma. Rydym yn cydnabod y gall bod yn denant i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddod â gofynion arbennig yn ei sgil, felly rydym wedi paratoi'r llyfryn hwn, gyda help Cymdeithas Tenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i helpu'r bartneriaeth honno.

Y llyfryn hwn yw'r cyntaf o'i fath, a gobeithio y bydd o ddefnydd i chi wrth i chi ddelio â'r Ymddiriedolaeth a'n cyd ofalaeth o'ch cartref. Rhowch wybod i ni os gallwch awgrymu gwelliannau, a diolch am eich cyfraniad i'n gwaith cadwraethol hanfodol.

*Fiona Reynolds.*

*Fiona Reynolds, Prif Gyfarwyddwr*

Mawrth 2008

# Am yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fel landlord

Fe baratowyd y llawlyfr hwn mewn cydweithrediad â Chymdeithas Tenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol TANT i ddarparu gwybodaeth i denantiaid i'ch helpu i ddeall eich hawliau a'ch cyfrifoldebau ac i'ch helpu i wneud yn fawr o'ch amser yn byw mewn bwthyn yr Ymddiriedolaeth. Ein nod yw bod yn landlord da, yn gweithio gyda thenantiaid da er budd yr eiddo sydd yn ein gofal. Rydym yn awyddus i wella ein gwasanaeth i denantiaid a gobeithio y bydd y llawlyfr hwn yn ein helpu i gyflawni hynny.

**Canllaw yw'r Llawlyfr ac nis bwriadwyd i roi cyngor cyfreithiol ar delerau eich tenantiaeth. Dylech geisio help bob amser gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gynghorydd cyfreithiol os ydych yn ansicr ynglŷn â'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau.**

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw'r sefydliad cadwraethol mwyaf yn Ewrop a'n pwrpas yw gofalu am y llu adeiladau hanesyddol gwych, casgliadau a thirweddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon er budd y genedl. Yn 2008 cawsom gefnogaeth 3.5 miliwn o aelodau a bron i 14 miliwn o ymwelwyr a ddaeth i'n heiddo 'talu am fynediad', ac mae'r ffigurau hyn yn parhau i gynyddu. Yn ogystal â hyn amcangyfrifwn y gwneir dros 100 miliwn o ymweliadau â'n safleoedd yng nghefn gwlad, a bydd bron i 50,000 o wirfoddolwyr yn helpu gyda llawer o wahanol agweddau ar ein gwaith bob blwyddyn.

Ymysg y 25,000 o adeiladau sydd yn ein gofal mae bron i 5,000 yn dai a bythynnod, a'r rhan fwyaf ohonynt gyda thenantiaid yn byw ynddynt fel cartrefi preifat. Rydych chi a'ch teuluoedd yn chwarae rhan allweddol yn helpu i ofalu am yr eiddo gyda nifer ohonynt eu hunain o ddiddordeb hanesyddol. Rydych chi nid yn unig yn cefnogi ein gwaith yn ariannol drwy'r rhent a delir sy'n cyfrannu at yr incwm sydd ar gael ar gyfer ein gwaith cadwraethol, ond rydych hefyd yn weithredol ymglymedig yn gofalu am y lleoedd arbennig yma, gan weithredu fel ceidwaid anffurfiol ar ein rhan.

Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn landlord cymdeithasol ac mae yna ystod eang o ofynion ar yr amser a'r arian sydd ar gael i ni. Fel elusen mae gennym rwymedigaeth i osod eiddo ar y telerau gorau posib. Ond, rydym yn cydnabod fod gennym gyfrifoldeb pwysig tuag at ein tenantiaid preswyl ac rydym am ddarparu'r gwasanaeth gorau a allwn ni i chi.

Ein hamcanion cyffredinol ar gyfer tai yw:

- Diogelu ein tai a'n bythynnod fel rhan o'r amgylchedd hanesyddol
- Hyrwyddo gwaith yr Ymddiriedolaeth drwy ddewis tenantiaid sydd â sgiliau priodol
- Cynhyrchu incwm rhent i gynnal gwaith yr Ymddiriedolaeth
- Helpu i gyfarfod ag anghenion tai lleol lle mae'r Ymddiriedolaeth yn ddarparwr tai sylweddol
- Ffaffrio'r rheiny sy'n cyfrannu tuag at y gymuned, lle bo hynny'n bosib.

# Safonau gofal cwsmeriaid

Ein nod yw darparu gwasanaeth da i'n tenantiaid felly rydym wedi datblygu rhestr o safonau y dylech eu disgwyl gennym ni:

- Fe wnawn ymdrin â phob tenant fel cwsmeriaid gydag urddas a pharch
- Fe wnawn ddelio â chi mewn ffordd sy'n broffesiynol ac yn gwrtais
- Fe wnawn roi caniad yn ôl i chi os na fyddwn ar gael i dderbyn eich galwad, neu os gofynnwch i ni wneud hynny
- Lle bynnag y bydd hynny'n bosib, fe ymwelwn â chi yn eich cartref, os gofynnwch i ni wneud hynny
- Os byddwn yn mynd i fod yn hwyr neu os na allwn gadw'r apwyntiad a wnaethpwyd â chi, fe gysylltwm â chi i esbonio pam
- Fe ddisgwylir i unrhyw staff neu gontractwr a fydd yn ymweld â chi yn eich cartref fod â cherdyn adnabod i gadarnhau pwy ydyn nhw
- Fe wnawn adolygu a monitro ein gwasanaethau'n barhaus, gan wneud gwelliannau lle bynnag y bydd hynny'n bosib
- Fe wnawn archwilio unrhyw gŵyn a gawn gennych chi ac adrodd yn ôl
- Fe ymddiheurwn os byddwn wedi gwneud rhywbeth yn anghywir ac fe wnawn ein gorau i'w cywiro.

Ar yr un pryd fe ddisgwylir i chi:

- Weithio gyda'n staff mewn ffordd gwrtais a chydweithredol
- Roi gwybod i ni os na allwch gadw apwyntiad
- Adael i'n staff gael mynediad i'ch eiddo i arolygu ei gyflwr, i wneud gwaith neu drafod materion â chi fel y bo'r angen
- Beidio cam-drin, bygwth na phoeni ein staff neu gontractwyr, ac i atal aelodau o'ch teulu neu ymwelwyr rhag gwneud hynny.

# Eich cytundeb tenantiaeth

Mae eich Cytundeb Tenantiaeth yn ddogfen gyfreithiol bwysig. Mae'n gosod telerau ac amodau eich tenantiaeth a hawliau a chyfrifoldebau'r Landlord a'r Tenant. Os na allwch lynu at delerau'r cytundeb, byddwch yn torri eich tenantiaeth ac mewn achosion difrifol fe allech golli eich cartref.

Bydd eich tenantiaeth yn debygol o fod yn un o dri math sylfaenol, a bydd eich cyswllt Ymddiriedolaeth Genedlaethol lleol yn gallu dweud wrthyhych ba fath sydd gennych os na fyddwch yn siŵr:

## TENANTIAETH WARCHODEDIG neu STATUDOL

Os cafodd eich cytundeb ei harwyddo cyn Ionawr 15 1989 mae'n debygol o fod wedi ei gwarchod dan y Ddeddf Rhent. Golyga hyn y bydd y rhent wedi ei osod gan ddefnyddio'r system 'Rhent Teg' annibynnol ac ni ellir terfynu eich cytundeb oni bai bod amodau cyfreithiol arbennig yn gymwys. Unwaith y bydd gennych denantiaeth warchodedig gyda'r Ymddiriedolaeth fe fydd yn parhau'n warchodedig hyd yn oed os byddwch yn symud i eiddo arall yr Ymddiriedolaeth ac arwyddo cytundeb newydd, er fe all y rhent amrywio yn ôl maint yr eiddo.

Fel rheol bydd cytundebau a roddir i denantiaid newydd ar ôl Ionawr 15 1989 yn un o ddau fath:

## TENANTIAETH BYRDDALIAD SICR

Y dyddiau hyn dyma'r cytundeb tenantiaeth mwyaf cyffredin. Mae'n rhoi hawl cyfreithiol i chi fyw yn eich eiddo am gyfnod o amser penodol. Mae hefyd yn cynnig hawl i'r landlord gymryd yr eiddo'n ôl ar ddiwedd y denantiaeth pe bai'n dymuno gwneud hynny. Fel rheol, fodd bynnag, yn dilyn y cyfnod penodol, byddant yn rhedeg o fis i fis cyn belled â bod telerau'r cytundeb yn cael eu cadw.

## TENANTIAETH SICR

Mae gan denantiaid Sicr fwy o sicrwydd na Thenantiaid Byrddaliad Sicr. Golyga hynny, cyn belled nad ydych yn torri telerau'r Cytundeb Tenantiaeth, y cewch fyw yn yr eiddo am gyfnod cytûn ac wedi hynny, barhau i fyw yno oni bai bod amodau cyfreithiol yn gymwys.

---

# Eich cytundeb tenantiaeth Gogledd Iwerddon

---

Yng Ngogledd Iwerddon mae'r mathau canlynol o denantiaeth yn gymwys.

## TENANTIAETH DAN REOLAETH RHENT neu DENANTIAETH WARCHODEDIG

Os yw eich tenantiaeth yn denantiaeth dan reolaeth rhent bydd deddfwriaeth yn rheoli lefel y rhent a hyd y denantiaeth. Mae'r gyfraith ynglŷn â Thenantiaethau Gwarchodedig yn gymhleth ac os yw hyn yn gymwys i'ch Tenantiaeth chi fe awgrymwn eich bod yn ceisio cyngor am eich hawliau un ai gan gyfreithiwr neu'r Gwasanaeth Hawliau Tai [www.housingrights.org.uk](http://www.housingrights.org.uk)

## TENANTIAETH HEB REOLAETH

Dyma'r denantiaeth sy'n fwyaf cyffredin yng Ngogledd Iwerddon a dyma'r un y bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ei rhoi fel rheol. Mae'n rhoi hawl cyfreithiol i chi fyw yn eich eiddo am gyfnod o amser penodol. Mae hefyd yn cynnig i ni, y landlord, hawl i gymryd yr eiddo'n ôl ar ddiwedd y denantiaeth pe dymunem wneud hynny. Fel rheol, fodd bynnag bydd Tenantiaeth Heb Reolaeth, wedi'r cyfnod cychwynnol penodol, yn rhedeg o fis i fis cyn belled â bod amodau'r cytundeb yn cael eu cadw.

Fe wnawn ni:

- Eich darparu â Llyfr Rhent (am ddim) sy'n cynnwys gwybodaeth tenantiaeth benodol a bennir gan reoliadau sy'n sbesiffig i Ogledd Iwerddon a
- Lle bo hynny'n addas, ddarparu copi o Dystysgrif Ffitrwydd yn unol â Gorchymyn Tenantiaethau Preifat (GI) 2006 yn amodol ar oed yr annedd a dyddiad cychwyn y denantiaeth.

# Amodau cyffredin eich tenantiaeth

Bydd telerau ac amodau manwl cytundebau tenantiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn amrywio'n eang o eiddo i eiddo. Mae hynny oherwydd bod ein dogfennau safonol wedi newid dros amser ac maent hefyd wedi amrywio yn ôl arferion lleol a newidiadau yn y gyfraith. Cafodd rhai cytundebau eu llunio gan berchnogion blaenorol cyn i'r Ymddiriedolaeth gael yr eiddo. Golyga hyn y gallai hawliau a chyfrifoldebau'r landlord a'r tenant fod yn wahanol o gytundeb i gytundeb gan beri dryswch i ni i gyd.

Ers 2004 rydym wedi defnyddio cytundeb safonol RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) ar gyfer Tenantiaeth Byrddaliad Sicr o lai na saith mlynedd i sicrhau bod ein gosodiadau'n deg ac wedi eu hysgrifennu mewn iaith blaen.

Mae eich cyfrifoldebau chi a ninnau wedi eu gosod allan mewn termau bras yn y golofn nesa.

## EICH CYFRIFOLDEBAU CHI A NINNAU

Fe ddisgwyliwn ni i chi:

- Ofalu am yr eiddo yn unol â thelerau eich cytundeb tenantiaeth
- Dalu eich rhent yn brydlon ar y dyddiadau sy'n ofynnol yn ôl eich cytundeb neu unrhyw ddyddiadau eraill a gytunwyd rhyngom
- Beidio â pheri niwsans neu flinder i'ch cymdogion neu bobl eraill.

Fe wnawn ninnau felly:

- Barchu'r ffaith fod yr eiddo'n gartref i chi ac fe ganiatawn i chi ei fwynhau heb ymyrraeth na chyffro diangen
- Ymgymryd ag atgyweiriadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt mewn ffordd effeithiol ac amserol
- Yswirio'r adeilad (ond nid y cynnwys) rhag risgiau cyffredin.

Hefyd bydd y cytundebau tenantiaeth yn gosod allan weithdrefnau ar gyfer pethau fel adolygiadau rhent, trin blaendaliadau a threfniadau i derfynu tenantiaeth. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi mwy o fanylion.

# Gofalu am yr eiddo

Fe ddylech wirio eich cytundeb tenantiaeth bob amser i gadarnhau eich cyfrifoldebau chi a ninnau. Os byddwch yn ansicr, cysylltwch â ni. Fel rheol, ar gyfer tenantiaeth sydd am gyfnod cychwynnol o lai na saith mlynedd sy'n talu rhent yn fisol, mae ein hoblygiadau wedi eu rhannu fel a ganlyn:

## EICH CYFRIFOLDEBAU CHI

- Cadw'r eiddo'n lân ac mewn cyflwr da, yn enwedig gyda chynnal yr addurniadau mewnol, glanhau ffenestri y tu mewn ac allan, glanhau cyfarpar tanwydd soled a glanhau simneiau neu ffliwiau sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio
- Dadflocio sinciau, baddonau a chawodydd, ail-roi plygiau baddon neu fasn a seddi toiled
- Ailosod ffiwsiau a bylbiau golau
- Peidio altro na newid ymddangosiad nac adeiledd yr eiddo mewn unrhyw ffordd heb ein caniatâd
- Peidio altro na newid gosodiadau nwy, trydan na phlymio na gosod erialau na dysglau lloeren allanol
- Rhoi gwybod i ni am unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen
- Caniatáu i ni gael mynediad i'r eiddo, gyda rhybudd rhesymol, i archwilio cyflwr neu ymgymryd â gwaith yr ydym ni'n gyfrifol amdano
- Cadw'r ardd yn daclus ac wedi ei chynnal yn dda a pheidio â thorri coed neu altro'n sylweddol heb ein cydsyniad
- Gofalu am eich eiddo eich hun a'r allweddi i'r eiddo.
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn sicrhau defnyddio unrhyw osodiadau gwresogi tanwydd solet yn eich eiddo'n briodol ac yn ddiogel, bod ffliwiau a simneiau'n cael eu glanhau'n rheolaidd a'u cadw rhag blocio a bod awyriad cysylltiedig yn agored ac yn rhydd rhag rhwystr. Mae cyngor pellach ar gael gan y Solid Fuel Association ar 0845 601 4406 neu 01773 835 400 neu ar [www.solidfuel.co.uk](http://www.solidfuel.co.uk) sy'n darparu gwybodaeth diogelwch penodol
- Caniateir defnyddio tanau agored ac offer tanwydd solet pan fydd y simnai neu'r ffliw wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio gan yr Ymddiriedolaeth
- Byddem yn eich annog i ystyried gosod canfodydd Carbon Monocsid batri yn eich eiddo ac i brofi unrhyw ganfodyddion sydd wedi eu gosod ar y cyfnodau a argymhellir gan y gwneuthurwr.

## EIN CYFRIFOLDEBAU NI

Fe geisiwn gyfarfod â'n cyfrifoldebau statudol a darparu cartrefi gweddus i bobl fyw ynddyn nhw. Fel rheol byddwn yn gyfrifol am y canlynol:

- Adeiledd a thu allan yr adeilad a'r adeiladau allan a ddarperir gennym ni, yn cynnwys toeau, simneiau a chloddiau
- Addurniadau allanol, drysau a ffenestri (ac eithrio gwydr)
- Plastr mewnol (ac eithrio mân graciau)
- Draeniau, tanciau septig, gwteri a pheipiau allanol
- Gosodiadau gwresogi a phlymio ac offer a ddarperir gennym ni
- Llwybrau a stepiau sy'n rhoi mynediad i'r eiddo.



# Trwsio

## TRWSIO ARFEROL

Caiff y rhan fwyaf o'n hatgyweiriadau eu gwneud fel rhan o gylch cynnal a chadw cynlluniedig. Er enghraifft, byddwn yn anelu at wneud addurniadau allanol bob pum mlynedd ac yn aml fe wnawn arolwg o eiddo cyn gwneud hynny fel y gallwn gynllunio i wneud gwaith cynnal a chadw arall, fel trwsio gwaith coed neu ail-bwyntio, yr un pryd. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu cyn lleied ag sydd bosib o amhariad arnoch chi ac yn lleihau costau'n gyffredinol. Fe gewch eich hysbysu ymlaen llaw fel y gallwch gytuno ar drefniadau mynediad ac amlygu unrhyw waith cynnal a chadw y tybiwch chi sy'n angenrheidiol.

Ein bwriad yw gwneud gwaith atgyweirio o safon ac fe ymdrechwn, cyn belled ag sydd bosib, i aflonyddu cyn lleied ag y bo modd arnoch chi a'ch cartref.

## GWASANAETHU GOSODIADAU NWY A THRYDAN

Os oes nwy yn eich cartref, fe drefnwn brawf diogelwch nwy bob blwyddyn gan Beiriannydd Cofrestredig Gas Safe. Yn ddibynnol ar delerau eich tenantiaeth, ein nod yw ymgymryd â phroffion weirio trydanol gosodedig bob pum mlynedd.

Pan fydd atgyweiriadau'n angenrheidiol y tu allan i'r cylch cynlluniedig hwn fe ddylech hysbysu Swyddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn lleol (gweler y Daflen Cysylltiadau Lleol) a'u hysbysu o'r canlynol:

- Eich enw, cyfeiriad a rhif cyswllt
- Natur y broblem gan roi cymaint o fanylion ag sydd bosib
- Syniad o'r brys
- Amseroedd cyfleus i rywun ddod i archwilio neu ddelio ag o.

Pan dderbyniwn adroddiad am atgyweiriad fe'i rhown i aelod priodol ein tîm adeiladu. Fe gytunwn ar raddfa'r brys gyda chi yn ogystal â graddfa amser i gwblhau'r gwaith. Mae yna dri chategori bras ar gyfer atgyweirio fel a ganlyn.

## ARGYFWNG

Byddai hyn yn cynnwys diffygion sy'n peryglu iechyd neu ddiogelwch y tenant neu berson arall, neu sy'n cael effaith andwyol ddifrifol ar yr adeilad.

## BRYD

Byddai hyn yn cynnwys problemau sy'n achosi anghysur difrifol, anghyfleustra neu niwsans i'r tenant neu berson arall.

## RHEOLAIDD

Byddai hyn yn cynnwys problemau y gellir eu gohirio heb anghysur difrifol, anghyfleustra na niwsans i unrhyw un na dirywiad i'r adeilad yn y tymor hir. Os yw cynnal a chadw arferol i'w wneud o fewn amser rhesymol, fe all fod yn briodol delio ag atgyweiriadau fel hyn bryd hynny.

# Trwsio

---

## **ATGYWEIRIADAU BRYG Y TU ALLAN I ORIAU**

Lle bo hynny'n bosib fe ddarparwn rifau cyswllt brys y tu allan i oriau ac os yw'r rhain ar gael ar gyfer eich eiddo fe'u rhoddir ar y daflen cysylltiadau lleol.

Os cyfyd achos brys ac ni allwch gysylltu â'r Ymddiriedolaeth ac mae'n rhaid i chi gyfarwyddo contractwr lleol, gofynnwn i chi ein hysbysu cyn gynted ag sydd bosib. Os digwydd argyfwng dilys, fe delir cost y galw allan a'r trwsio gan yr Ymddiriedolaeth oni bai eich bod chi'n gyfrifol am y gwaith yn ôl telerau eich tenantiaeth.

## **OS NA WNEIR GWAITH ATGYWEIRIO YN ÔL Y CYTUNDEB**

Fe geisiwn bob amser wneud y gwaith o fewn y raddfa amser a gytunwyd â chi. Os gwelir na fydd hynny'n bosibl fel y'i cynlluniwyd, fe rown wybod i chi ymlaen llaw, esbonio pam a chytuno â chi ar amser gwahanol. Os byddwn wedi methu cyflawni atgyweiriad a gytunwyd ac heb eich hysbysu, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol (gweler y Daflen Cysylltiadau Lleol) a wnaiff ymchwilio ac aildrefnu fel y bo'n addas. Os bydd gennych broblem na ellir ei datrys gyda'ch swyddfa leol, gallwch gwyno gan ddefnyddio'r drefn gwyno fel y'i nodir yn y llawlyfr hwn.

# Materion rhent ac arian

## SUT I DALU EICH RHENT

Cesglir rhent ar gyfer eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan ein Huned Broesu Gweithrediadau (TPU) yn Trowbridge. Fel rheol fe delir rhenti gosodiadau preswyl yn fisol ar ddiwrnod a nodir yn eich cytundeb tenantiaeth. Fe fydd y TPU yn anfon anfoneb atoch tua phythefnos cyn y dyddiad dyledus. Bydd unrhyw rent nad yw wedi ei dalu ar y dyddiad dyledus yn dod yn ddyled ac fe ddelir â hynny gan ein gweithdrefnau rheoli credyd.

Gallwch dalu eich rhent mewn sawl ffordd ond Debyd Uniongyrchol misol o fanc neu gymdeithas adeiladu yw ein dull dewisol. Dyma'r dull mwyaf dibynadwy i dalu: mae'n arbed i chi orfod cofio talu ar y dyddiadau cywir a gellir ei newid yn awtomatig i adlewyrchu newidiadau yn y rhent. Mae'r Warant Debyd Uniongyrchol yn eich diogelu os gwneir taliadau anghywir am ba reswm bynnag. Cymerir y telir rhent ar gyfer pob tenantiaeth newydd drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Gall tenantiaid presennol dalu drwy'r dulliau canlynol ond fe fyddwn yn annog pob tenant i newid i Ddebyd Uniongyrchol lle bynnag y bo hynny'n bosib:

- Archeb sefydlog gan fanc neu gymdeithas adeiladu (yn dda i sicrhau taliad rheolaidd ond mae angen ei hadnewyddu pryd bynnag y bydd y swm dyledus yn newid)
- Sieciau'n daladwy i'r 'Ymddiriedolaeth Genedlaethol' a'u hanfon yn y post at gyfeiriad y TPU a ddangosir ar eich gorchymyn rhent
- Taliadau Cerdyn Credyd ar y ffôn i'r TPU – mae'r rhif cyswllt i'w weld ar eich gorchymyn rhent.

## HELP GYDA'CH RHENT

Os ydych chi'n berson hŷn, yn ddi-waith neu â salwch tymor hir neu os oes gennych anabledd neu fod eich enillion yn isel, fe allech fod yn gymwys i hawlio cymorth i helpu gyda'ch rhent.

Fe weinyddir taliadau gan eich cyngor lleol. Gallwch gael ffurflenni cais a chyngor gan y cyngor neu gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Mae'r system newydd o 'Lwfans Tai Lleol' wedi tanseilio budd-dal tai ers Ebrill 2008 a chyda'r cynllun hwn fe delir unrhyw lwfans yn uniongyrchol i'r hawliwr. Gofynnwch i'r cyngor lleol am fanylion.

**Mae'n bwysig iawn eich bod yn hawlio cymorth fel hyn cyn gynted ag y teimlwch eich bod â hawl iddo. Dim ond o'r diwrnod y cyflwynwch eich cais y telir unrhyw hawl.**

Chi sy'n gyfrifol am hysbysu'r cyngor o unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl – er enghraifft, cynnydd yn eich enillion, rhywun yn symud i mewn i'ch cartref neu newidiadau yn eich budd-daliadau eraill. Chi sy'n gyfrifol hefyd am ad-dalu unrhyw ordaliad o unrhyw gymorth y bydd y cyngor yn ei hawlio'n ôl gennym ni.

## ÔL-DDYLEDION

Mae'n bwysig eich bod yn talu'r rhent yn brydlon ond fe ddeliwn yn deg â chi os byddwch yn methu â thalu mewn pryd ac fe ystyriwn unrhyw anawsterau penodol fydd gennych. Ond, ni fyddwn yn anwybyddu ôl-ddyledion rhent, gan na fyddai hyn o help i chi a byddai'n cynyddu cost rheoli a chynnal ein tai i bawb arall.

# Materion rhent ac arian

Os gwyddoch eich bod yn mynd i gael anhawster talu'r rhent neu'r ydych wedi derbyn llythyr gennym yn dweud bod rhent yn ddyledus, dylech gysylltu â ni ar unwaith ar y rhif sydd ar eich gorchymyn rhent neu'r rhybudd o rent dyledus. Os bydd hynny'n briodol, gallwch gael eich rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau proffesiynol annibynnol a all eich cynghori ar sut i reoli eich dyled a sut i ddiogelu eich cartref.

## ACHOS LLYS

Os na fyddwch yn talu'r ôl-ddyledion ar eich cyfrif rhent yn y ffordd a gytunwyd, yn enwedig os byddant yn parhau i gynyddu, fe gychwynnir achos cyfreithiol i adennill yr arian sydd arnoch chi yn unol â thelerau eich cytundeb. Mewn achosion difrifol, lle na fyddwch wedi gwneud unrhyw ymdrech i glirio na lleihau'r ôl-ddyledion ar raddfa gytûn, fe ofynnwn i'r Llys Sirol am orchymyn i adfeddiannu eich cartref.

**Rydym yn dweud hyn wrthoch chi fel eich bod yn gwybod beth y gall ôl-ddyledion rhent arwain ato ac i'ch annog i siarad â ni yn gynnar fel na fydd angen dwyn achos cyfreithiol.**

Os ydych chi mewn dyled oherwydd eich bod yn aros am benderfyniad ar gais am fudd-daliad tai, dylech ddweud wrthym a gwneud yn siŵr eich bod wedi anfon yr holl wybodaeth sydd ei angen at eich cyngor lleol i ddelio â'ch cais.

## CYNGOR CYFFREDINOL AR DDYLED

Peidiwch ag anwybyddu dyled – mae'n well bob amser i siarad â rhywun amdano. Efallai ei bod yn anodd ei wynebu ond bydd yn gwaethygu po hiraf y gadewch chi o. Mae manylion am wasanaethau cynghori am ddim ar ddyledion ar gael o Ganolfan leol Cyngor ar Bopeth.

Gallwch geisio cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim hefyd am unrhyw achos llys drwy gysylltu â Chanolfan leol Cyngor ar Bopeth, Canolfan Cymorth Tai, Canolfan Gyfreithiol neu gyfreithiwr dan y Cynllun Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Cymorth Cyfraith gynt).

## ADOLYGIADAU RHENT

Fel rheol byddwn yn adolygu rhenti preswyl bob dwy flynedd, oni bai bod eich cytundeb tenantiaeth yn nodi cyfnod gwahanol.

Os oes gennych Denantiaeth Warchodedig (gweler uchod), mae'n rhaid gosod rhent teg gan Wasanaeth Rhent y llywodraeth. Fel rheol byddwn yn trefnu i gyfarfod â chi i edrych ar yr eiddo a thrafod unrhyw ffactorau a allai effeithio ar y rhent. Yna fe wnawn gais i'r Swyddog rhent am rent newydd ac fe rown wybod i chi faint y byddwn yn ei ofyn. Fe gewch gyfle i roi gwybod i'r Swyddog Rhent os teimlwch fod hyn yn ormod. Fe all y Swyddog Rhent fod eisiau ymweld â'ch cartref i benderfynu beth ddylai'r rhent fod. Bydd y Swyddog Rhent yn ein hysbysu ni'n dau o'r rhent y teimla ef/hi sy'n briodol ac mae gan y ddau barti hawl i apelio os nad ydynt yn credu fod hyn yn rhesymol.

Unwaith y bydd y Swyddog Rhent wedi gosod y rhent, fe'i cofrestrir ar gyfer yr eiddo ac ni ellir ei newid am ddwy flynedd, oni bai fod yna newid sylweddol yn yr eiddo yn ystod yr amser hwnnw.

Os oes gennych Denantiaeth Byrddaliad Sicr, gallwn gytuno ar rent newydd gyda'n gilydd heb ymglymu'r Swyddog Rhent. Fel rheol fe drefnwn i'ch cyfarfod i edrych ar yr eiddo a thrafod unrhyw faterion perthnasol. Yna fe ysgrifennwn atoch yn argymhell codi rhent newydd o ddyddiad yr adolygiad nesaf. Bydd hwn yn seiliedig ar renti eiddo cymharol yn yr ardal fel rheol a bydd yn ystyried unrhyw fanteision neu anfanteision penodol sydd gan eich eiddo chi. Os teimlwch fod y rhent arfaethedig yn rhy uchel, siaradwch â ni. Os na allwn gytuno ar rent â chi (a fyddai'n anarferol), mae gennych hawl i apelio at Bwyllgor Asesu Rhent Annibynnol. Pan argymhellwn y rhent newydd fe anfonwn hysbysiad cyfreithiol atoch chi, sy'n cychwyn y broses ffurfiol ac sy'n rhoi cyfle i chi gyflwyno apêl os oes angen. Os digwydd apêl, mae penderfyniad y Pwyllgor yn orfodol ar y ddau barti ac fe allai fod yn fwy neu'n llai na'r ffigur y gwnaethpwyd cais amdano.

Mae'r broses ar gyfer Tenantiaeth Sicr yn debyg.

Fel rheol ni ddylai adolygiadau rhent gynnwys gwerth gwelliannau yr ydych chi wedi eu gwneud i'r eiddo gyda'n cydsyniad ni. Felly mae'n bwysig eich bod yn ceisio ein cydsyniad i unrhyw welliannau y byddwch chi'n ymgymryd â nhw a'ch bod yn sicrhau nad yw'r rhain yn cael eu cynnwys pan adolygir y rhent.

## **ADOLYGIADAU RHENT - GOGLEDD IWERDDON**

Yng Ngogledd Iwerddon fel rheol byddwn yn adolygu rhenti preswyl bob blwyddyn, oni bai bod eich cytundeb tenantiaeth yn nodi cyfnod gwahanol. Os oes gennych Denantiaeth Reoledig neu Warchodedig fe osodir lefel y rhent gan y Swyddog Rhent. Os oes gennych Denantiaeth Afreoledig gallwn gytuno rhent newydd gyda'n gilydd.

## **BLAENDALIADAU**

Fel rheol byddwn yn cymryd blaendal ar ddechrau tenantiaeth a allai fod yn gyfartal â mis neu ddau o rent. Byddwn yn dal ar hwn i dalu am gost unrhyw atgyweiriadau neu gost adnewyddu sy'n gyfrifoldeb i chi ac sy'n dal heb eu talu pan fyddwch yn ymadael. Caiff unrhyw swm o'r blaendal nad yw wedi ei wario ei ddychwelyd atoch chi yn eich cyfeiriad newydd.

Yn Ebrill 2007 fe gyflwynodd y Llywodraeth Gynllun Blaendal Tenantiaeth yn Lloegr a Chymru (nid yw'n gymwys yng Ngogledd Iwerddon). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gofrestru manylion pob tenantiaeth newydd yn eu cychwyn a'u diwedd gyda chorff cymeradwy sydd â'r cyfrifoldeb o:

- Ddiogelu blaendaliadau yn ystod y denantiaeth
- Sicrhau bod blaendaliadau'n cael eu dychwelyd yn brydlon pan na fydd unrhyw anghydfod ar ddiwedd y denantiaeth
- Pan fydd yna anghydfod am ddychwelyd y blaendal, drefnu i'r Archwiliwr Cwynion Annibynnol ddelio ag o'n deg.

# Bod yn gymydog da

## DEFNYDDIO'R EIDDO

Disgwylwn i chi fyw yn yr eiddo fel eich prif gartref ac nid ei ddefnyddio i redeg unrhyw fath o fusnes neu ar gyfer unrhyw weithgaredd nad yw'n gyson ag annedd domestig preifat. Mae peth gweithio o'r cartref yn dderbyniol, ond os byddwch yn defnyddio'r eiddo fel cyfeiriad busnes cofrestredig neu ar gyfer busnes llawn amser bydd yn rhaid i chi gael ein cydsyniad ac fe all olygu tenantiaeth o fath gwahanol. Ni ddylech ganiatáu i'r eiddo fod yn rhy llawn neu i gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddibenion anghyfreithlon neu anfoesol.

## YMDDYGIAD

Chi sy'n gyfrifol am ymddygiad y bobl sy'n byw gyda chi neu sy'n ymweld â chi. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu ymddygiad yn eich cartref, ac yn y gymdogaeth. Nid ydych chi, na nhw i:

- Ymddwyn mewn ffyrdd sy'n achosi niwsans, aflonyddwch, dychryn na blinder i bobl eraill
- Greu sŵn afresymol
- Achosi difrod i'r eiddo na'r gymdogaeth
- Gyflawni trosedd restiol yn yr eiddo na'r gymdogaeth.

## ANIFEILIAID ANWES

'Dydyn ni ddim yn gwrthwynebu cadw anifeiliaid anwes fel egwyddor ond mae angen i ni allu sicrhau eu bod o fath a nifer priodol ac na chaniateir iddyn nhw niweidio eiddo nag amharu ar gymdogion. Os byddwch chi am gadw anifeiliaid anwes, fe fydd arnoch angen ein cydsyniad ysgrifenedig. Ni chaiff hyn ei wrthod fel rheol cyn belled â bod y cais yn rhesymol ac yn gydnaws â natur yr eiddo. Os bydd anifeiliaid yn niwsans neu'n difrodi'r eiddo, fe gadwn yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl i ganiatáu eu cadw yn yr eiddo.

# Bod yn ymglymedig

Rydym yn awyddus i ffeindio ffyrdd o wella'r ffordd yr ymglymir tenantiaid yn ein gwaith, i wella ein gwasanaethau fel landlord ac i wella gofal am ein heiddo, sydd yn ein gofal er budd y genedl.

Rydym yn gweithio'n agos gyda TANT yn ganolog, a chyda eu help a'u cefnogaeth mae nifer cynyddol o gymdeithasau tenantiaid pentref neu stad wedi eu sefydlu'n lleol. Fe groesawn y rhain ac fe'u hystyriwn nid yn unig fel ffordd werthfawr o ddelio â materion yn lleol ond hefyd fel cyfraniad cymdeithasol gwerthfawr i'r cymunedau y byddwn yn cydweithio â nhw.

Nid oes raid i denantiaid ymuno â grŵp ffurfiol er mwyn bod yn ymglymedig a byddwn yn croesawu adborth gan grwpiau ac unigolion fel ei gilydd. Bydd cyfleoedd yn amrywio o eiddo i eiddo yn dibynnu ar berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth yn yr ardal, ond mae enghreifftiau o'r ffordd yr hoffem ymglymu â thenantiaid yn cynnwys y canlynol:

- Darparu gwybodaeth am eich cartref fel ei hanes neu nodweddion arbennig
- Cyfathrebiadau am yr Ymddiriedolaeth drwy newyddlenni lleol neu genedlaethol a gofod wedi ei neilltuo ar gyfer tenantiaid ar ein Gwefan
- Ymweld ag eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eich ardal chi – weithiau gellir gwneud trefniadau arbennig i chi ymweld hyd yn oed os nad ydych yn aelod o'r Ymddiriedolaeth
- Gwirfoddoli ymglymu â phob agwedd ar waith yr Ymddiriedolaeth. Gweler y wefan [www.nationaltrust.org.uk/volunteering](http://www.nationaltrust.org.uk/volunteering).

## DERBYN EICH ADBORTH

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ac fe groesawn eich syniadau am beth arall yr hoffech ei wybod neu beth arall y teimlwch y gallem ei wneud. Rhwng eich adborth a'ch barn i ni ar faterion fel:

- Ein polisiau a'n gweithdrefnau
- Materion sy'n effeithio ar grwpiau penodol o denantiaid a phreswylwyr
- Gwelliannau i ddargludiad gwasanaeth
- Materion sy'n effeithio ar denantiaid a phreswylwyr unigol h.y. rheoli tai a chynnal a chadw
- Y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch chi fel tenantiaid
- Newidiadau a gwelliannau i wasanaeth
- Neu unrhyw beth arall y gallwch feddwl amdano.

# Newidiadau i'ch teulu

## OLYNIAETH

Os byddwch yn marw, yn dibynnu ar ba fath o denantiaeth sydd gennych, mae'n bosib i aelod o'ch teulu sydd wedi bod yn byw efo chi, gymryd y denantiaeth drosodd a dod yn denant newydd os byddant yn cyfarfod â gofynion cyfreithiol arbennig. Os nag oes gan y person a adewir yn yr eiddo hawl cyfreithiol i gymryd y denantiaeth drosodd, fe edrychwn ar eu hamgylchiadau ac ystyried a allwn gynnig tenantiaeth. Mewn rhai achosion efallai y gallwn gynnig tenantiaeth iddyn nhw mewn cartref arall sy'n fwy addas ar gyfer eu hanghenion.

## TROSGLWYDDO

Bydd eich tenantiaeth yn nodi a allwch neilltuo neu drosglwyddo eich tenantiaeth i rywun arall neu beidio. Fel rheol, os y'i caniateir byddai'n rhaid i chi gael ein cydsyniad i ddechrau.

## TOR-PERTHYNAS

Fel rheol fe roddir ein tenantiaethau i denant sengl a enwir ond os bydd i'ch perthynas â'ch partner chwalu, bydd gofyn i chi siarad â ni i drafod beth y mae hyn yn ei olygu i'ch tenantiaeth. Fe geisiwn fabwysiadu dull cydymdeimladol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

## SYMUD CARTREF

Os bydd amgylchiadau eich teulu wedi newid ac fe deimlwch nad yw'r eiddo'n addas bellach ar gyfer eich anghenion, efallai y gallwn ystyried cynnig eiddo arall sydd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i chi. Ni allwn warantu gallu helpu, gan y byddai'n dibynnu ar ba gartrefi eraill sydd gennym yn yr ardal ac a oes rhywbeth addas ar gael.



# Gadael eich cartref

Pan fyddwch yn cynllunio symud allan o'ch cartref, am ba reswm bynnag, bydd eich cytundeb tenantiaeth yn gosod allan cyfnod y rhybudd sy'n ofynnol i chi ei roi i ni. Os yw cyfnod penodol cychwynnol eich tenantiaeth wedi mynd heibio a'ch bod yn dal y tŷ o fis i fis, fe dderbyniwn rybudd ysgrifenedig o fis o'ch bwriad i symud ond mae'n ddefnyddiol i ni i gael cymaint o rybudd ag sydd bosib ymlaen llaw.

Mae'n rhaid i chi dalu'r rhent am y mis olaf a gofynnwn i chi roi cyfeiriad blaenyrru i ni.

Pan fyddwch yn gadael eich cartref, rydych yn gyfrifol am y canlynol:

- Clirio eich cartref yn cynnwys unrhyw ofod yn yr atig, siediau, garejis a'r ardd o'ch holl eiddo personol
- Sicrhau fod pawb yn symud allan efo chi
- Codi a chael gwared â gorchuddion llawr oni bai eu bod mewn cyflwr cystal fel ein bod yn rhoi caniatâd i chi eu gadael
- Atgyweirio unrhyw ddifrod sydd wedi digwydd, er enghraifft adfer waliau lle mae silffoedd etc. wedi eu tynnu i lawr
- Sicrhau bod addurniadau'n cael eu gadael mewn cyflwr priodol
- Glanhau pob arwynebedd, darnau gosod a gosodiadau, yn cynnwys baddon, toiled, basn, unedau cegin/sinc, etc. Fe all hyn olygu glanhau proffesiynol lle cedwid anifeiliaid anwes
- Gadael fflwiau a simneiau'n lân
- Gadael cyfarpar tanwydd solet yn lân.

Os na fyddwch yn cyfarfod ag unrhyw un o'r cyfrifoldebau hyn, fe fyddwn yn codi tâl arnoch am unrhyw waith y dylech fod wedi ei gwblhau. Fel rheol fe fyddwn yn ceisio cyfarfod â chi i archwilio'ch cartref cyn i chi symud. Yn aml fe gedwir cofnod o gyflwr yr eiddo ar gychwyn y denantiaeth ac fe allwn ddangos i chi unrhyw beth yr ydych yn gyfrifol am eu hadfer yn ystod yr ymweliad.

Cyn i chi adael eich cartref am y tro olaf mae gofyn i chi sicrhau eich bod wedi:

- Darllen unrhyw fesuryddion nwy, trydan a dŵr ac wedi anfon y darlenniadau ymlaen at ein cyflenwyr fel y gallant gau eich cyfrif â nhw
- Dweud wrth y cyngor lleol er mwyn dibenion Treth Cyngor
- Dweud wrth ddarparwyr gwasanaethau eraill fel ffôn a theledu
- Ail-gyfeirio eich post i'ch cyfeiriad newydd. Gall y Swyddfa Bost helpu gyda hyn

Mae angen i chi sicrhau hefyd bod eich cyfrif rhent yn gyfamserol. Chi sy'n gyfrifol am y rhent hyd at ddiwrnod olaf eich tenantiaeth ac fe geisiwn unrhyw rent sy'n ddyledus wedi i chi adael yr eiddo.

## Yn olaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd yr allwedd.

Fe ddychwelir y blaendaliad i chi gyda chost adfer unrhyw eitemau yr oeddech yn gyfrifol amdany'n nhw pan adawsoch yr eiddo, wedi ei dynnu. Gyda thenantiaethau a grëwyd ers Ebrill 2007, caiff dychweliadau blaendaliad eu trin gan gorff annibynnol cymeradwy dan Gynllun Blaendaliadau Tenantiaeth y Llywodraeth.

# Cwynion

Fe wnawn ein gorau i roi'r gwasanaeth gorau a allwn ni i chi. Ond, fe gydnabyddwn y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Byddwn yn ystyried cwynion yn ddifrifol ac yn annog pobl i gwyno mewn ffordd mor bositif ag y bo modd. Rydym yn ymroddedig i ddysgu oddi wrth gwynion a dderbyniwn ac i newid y systemau a'r gweithdrefnau er mwyn atal cwynion tebyg rhag digwydd eto. Fe amcanwn i archwilio'n llawn i bob cwyn a wneir am ein gwasanaeth.

## SUT I GYFLWYNO CWYN

**CAM UN** – os byddwch yn anfodlon gyda diffyg gweithredu, ansawdd gwasanaeth gwael neu'r ffordd y caiff materion eu trin, fe ddylech, yn y lle cyntaf, geisio ei ddatrys gyda'r person neu'r swyddfa leol sydd wedi bod yn delio â chi. Os nad ydych yn gwybod pwy sy'n delio â'r mater hwn, bydd Cyswllt lleol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gallu dweud wrthych pwy sydd orau i ddelio â'r broblem. Gellir datrys y rhan fwyaf o faterion yn y cyfnod yma cyn iddynt waethygu ymhellach.

**CAM DAU** – os na fydd hyn yn llwyddiannus gallwch fynd â'r mater ymhellach drwy ysgrifennu at Gyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer y Rhanbarth neu'r Wlad sy'n lleol i chi. Gallwch anfon hwn yn uniongyrchol yn y post, ffacs neu e-bost neu fe allwch gael rhywun arall (e.e. swyddog cyngori, cyfreithiwr, ffrind neu berthynas) i gyflwyno'r gŵyn ar eich rhan. Dylech ddarparu cymaint o fanylion ag sydd bosib ac esbonio pam nad ydych yn hapus â'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma.

Caiff eich cwyn ei chofnodi gennym ni. Yna bydd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol neu Genedlaethol yn dyrannu uwch aelod o'i staff i ddelio â'r mater, sef y Rheolwr Ardal fel rheol. Caiff y rhan fwyaf o gwynion eu datrys yn y cyfnod yma.

**CAM TRI** – os byddwch yn dal yn anfodlon, gall eich cwyn gael ei dyrchafu i'r cam nesaf lle y caiff ei harchwilio gan Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth yn y Swyddfa Ganolog yn Swindon, neu Gyfarwyddwr priodol a enwebir ganddo ef/ganddi hi. Fe rown wybod i chi pwy sy'n delio â'r gŵyn a'r graddfeydd amser tebygol ar gyfer ymateb. Os cymer y gŵyn amser maith i'w harchwilio, fe gewch eich diweddarau ar y cynnydd.

**CAM PEDWAR** – os, am ryw reswm, y bydd eich cwyn yn dal heb ei datrys yn y cyfnod hwn, yna fe ddylech ei chyfeirio at y Cadeirydd yn y Swyddfa Ganolog. Fe wnaiff ef/hi sicrhau y caiff ei hanfon ymlaen at feirniad allanol a fydd yn rhoi penderfyniad terfynol ar y mater.

## CYRCHIAD I WYBODAETH

Mae gennych hawl i weld gwybodaeth arbennig y byddwn yn ei ddal ynglŷn â chi dan Ddeddf Diogelu Data. Mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig gan roi manylion llawn eich enw a'ch cyfeiriad a'r wybodaeth bersonol yr ydych am gael cyrchiad iddo. Os byddwch yn anghytuno ag unrhyw ran o'r wybodaeth, mae gennych hawl i gael ei gywiro neu i gofnodi eich anghytundeb.

---

# Gwybodaeth ddefnyddiol

---

Mae Taflen Cysylltiadau Lleol ar gael o swyddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n delio â'ch eiddo. Dylai roi:

- Cyswllt lleol allweddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gyfer pob tenant - rhywun y gallwch ddibynnu arnyn nhw i ddweud wrthoch pwy y dylech siarad â nhw am unrhyw fater arbennig
- Pwy sy'n gwneud be ynglŷn â'ch eiddo
- Swyddogion cenedlaethol TANT
- Swyddfa leol Cyngor ar Bopeth.

---

## TANT

---

TANT yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau tenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bu TANT yn delio gyda thenantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am rai blynyddoedd ac mae'n gyfarwydd â llawer o'r problemau y gallwch eu profi. Gall helpu i'w datrys mewn llawer o achosion ac yn aml dyma'r ateb cyflymaf a'r gorau.

Mae pob cymorth gan TANT am ddim ac yn gwbl gyfrinachol. Os bydd arnoch angen help gweler y Rhestr Cysylltiadau Lleol neu ewch i wefan TANT

**[www.nationaltrusttenantsassociation.co.uk](http://www.nationaltrusttenantsassociation.co.uk)**

Os hoffech chi gael eich cadw'n gyfoes â gweithgaredd TANT, yna anfonwch eich enw, cyfeiriad ac e-bost at **[nationaltrusttenantsassociation@btinternet.com](mailto:nationaltrusttenantsassociation@btinternet.com)**


---

# Gollyngiad nwy

---

Os oes gennych gyflenwad nwy ac rydych yn amau fod yna ollyngiad nwy yn eich eiddo, MAE’N RHAID i chi:

- Droï’r cyflenwad nwy i ffwrdd wrth y mesurydd ar unwaith
- Diffodd pob fflam a sigarêts
- Agor drysau a ffenestri i ganiatáu awyriad
- Peidio troi cyfarpar trydanol ymlaen na’u diffodd; gan gynnwys switshis golau, unrhyw systemau intercom a ffonau symudol
- Ffonio’r Rhwydwaith Cenedlaethol yn syth ar 0800 111 999 i’w rhybuddio o’r broblem
- Aros wrth ymyl yr eiddo i sicrhau y gall peiriannydd gael mynediad. Peidiwch ag aros y tu mewn i’r eiddo gan y byddai hynny’n beryglus, yn enwedig os oes yna ollyngiad nwy difrifol.



Os hoffech y wybodaeth hon mewn fformatau eraill ffoniwch **01793 817791** neu anfonwch ebost **tenants.handbook@nationaltrust.org.uk**

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Sgwâr y Drindod  
Llandudno LL30 2DE

[www.nationaltrust.org.uk](http://www.nationaltrust.org.uk)

© 2008 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Elusen gofrestredig rhif 205846

Dyluniwyd gan E&P Design.  
Llun ©Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Argraffwyd gan Park Lane Press ar bapur wedi'i ailgylchu 100%, gan ddefnyddio inciau llysiuol, ynni o adnoddau adnewyddadwy a thechnoleg argraffu heb ddŵr. Ardystiwyd bod y systemau cynhyrchu print yn cydymffurfio â'r safonau ISO 14001: 2004, ISO 9001: 2000, EMAS

98685/09